

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Talerddig, Powys) (Gwahardd
Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr
Dros Dro) 2019

The A470 Trunk Road (Talerddig,
Powys) (Temporary Prohibition of
Vehicles, Cyclists & Pedestrians)
Order 2019

Gwnaed 13 Mai 2019

Made 13 May 2019

Yn dod i rym 16 Mai 2019

Coming into force 16 May 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Talerddig, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 16 Mai 2019.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Talerddig, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2019 and it comes into force on 16 May 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 22:30 o'r gloch ar 16 Mai 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the length of the A470 Caersws to Machynlleth Trunk Road at Talerddig, Powys that extends from a point 20 metres south of Pont Bell railway bridge to a point 20 metres north of the railway bridge;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o Gefnffordd yr A470 Caersŵs i Fachynlleth yn Nhaleddig, Powys sy’n ymestyn o bwynt 20 metr i’r de o bont reilffordd Pont Bell hyd at bwynt 20 milltir i’r gogledd o’r bont reilffordd.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

Cymhwys

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

13 Mai 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 22:30 hours on 16 May 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

13 May 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(TALERDDIG, POWYS) (GWAHARDD
CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS
DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, wrth bont reilffordd Pont Bell, Talerddig, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn am bellter o 20 metr y naill ochr a'r llall i bont reilffordd Pont Bell.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A470 tua'r de i Gaersŵs, yr A489 tua'r dwyrain i'r Drenewydd, yr A483 tua'r gogledd-ddwyrain i'r Trallwng a'r A458 tua'r gorllewin i Fallwyd i ailymuno â'r A470 tua'r de/gogledd yng Nglantwymyn: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym am 22:30 o'r gloch ar 16 Mai 2019 ac yn parhau mewn grym tan 06:30 o'r gloch ar 17 Mai 2019, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

MRS C J McCARTHY
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (TALERDDIG,
POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS)
ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Pont Bell railway bridge, Talerddig, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A470 trunk road that extends for a distance of 20 metres either side of Pont Bell railway bridge.

The alternative route for northbound traffic will be via the southbound A470 to Caersŵs, eastbound A489 to Newtown, north-eastbound A483 to Welshpool and westbound A458 to Mallwyd to rejoin the south/northbound A470 at Cemmaes Road: vice versa for southbound traffic.

It is expected that the temporary prohibitions will come into force at 22:30 hours on 16 May 2019 and remain in force until 06:30 hours on 17 May 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

MRS C J McCARTHY
Transport
Welsh Government

